Senedd Cymru

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Iechyd a Gofal

Ebrill 2022

1. Cefndir

Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU (y Bil)[1] yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n ei noddi.

2. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2021 a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Tachwedd. Cafodd gwelliannau Tŷ'r Cyffredin eu hystyried gan Dŷ'r Arglwyddi ar 5 Ebrill 2022. Bydd Tŷ'r Cyffredin yn ystyried gwelliannau Tŷ'r Arglwyddi ar 25 Ebrill 2022.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3 Llywodraeth Cymru

3. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

4. Ar 1 Medi 2021, gosododd Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[2] (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.

5. Ar 17 Rhagfyr 2021, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd[3] (Memorandwm Rhif 2) mewn cysylltiad â gwelliannau a wnaed i'r Bil ar 23 Tachwedd 2021 yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae rhifau Cymalau (ac Atodlenni) y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 2 yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi.[4]

---

[1] Bil Iechyd a Gofal y DU, fel y'i cyflwynwyd (Bill 140 Tŷ'r Cyffredin 2021-22)

[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Iechyd a Gofal, Medi 2021

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) y Bil Iechyd a Gofal, Rhagfyr 2021

[4] Y Bil Iechyd a Gofal, fel y'i cyflwynwyd (Bil 71 Tŷ'r Arglwyddi)

6. Ar 28 Ionawr 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach[5] (Memorandwm Rhif 3) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil ar 24 Ionawr 2022 yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae rhifau Cymalau (ac Atodlenni) y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 3 hefyd yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Crynodeb o'n hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad

7. Cyflwynwyd adroddiad gennym ar y Memorandwm (adroddiad cyntaf) ar 3 Rhagfyr 2021.[6] Mae paragraffau 15 i 94 ein hadroddiad cyntaf yn nodi'n fanwl ein hystyriaeth o'r Memorandwm.

8. Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys pedwar casgliad ffurfiol ac wyth argymhelliad. Ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad cyntaf ar 2 Chwefror 2022.[7]

9. Cyflwynwyd adroddiad gennym ar Femorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3 (ail adroddiad) ar 14 Chwefror.[8] Mae paragraffau 70 i 129 ein hail adroddiad yn nodi'n fanwl ein hystyriaeth o'r Memoranda hyn.

10. Roedd ein hail adroddiad yn cynnwys saith casgliad ffurfiol ac wyth argymhelliad. Ymatebodd y Gweinidog i'n hail adroddiad ar 15 Chwefror 2022.[9]

Ystyriaeth y Senedd o'r Memorandwm, Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3

11. Cafodd cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil (yn seiliedig ar y Memorandwm, Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) ei ystyried a'i gytuno yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror 2022.[10]

---

[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) y Bil Iechyd a Gofal, Ionawr 2022

[6] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal, Rhagfyr 2021

[7] Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 2 Chwefror 2022

[8] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2 a Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Iechyd a Gofal, Chwefror 2022

[9] Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 15 Chwefror 2022

[10] Cyfarfod Llawn, 15 Chwefror 2022

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Rhif 4 Llywodraeth Cymru

12. Ar 5 Ebrill 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach[11] (Memorandwm Rhif 4) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â gwelliannau a wnaed i'r Bil ar 30 Mawrth 2022 yn Nhŷ'r Cyffredin yn ystod ystyriaeth o welliannau Tŷ'r Arglwyddi i'r Bil. Mae rhifau Cymalau (ac Atodlenni) y cyfeirir atynt ym Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â'r fersiwn o'r Bil fel y'i diwygiwyd ar Adroddiad yn Nhŷ'r Arglwyddi.[12]

Newidiadau i'r Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 3

13. Mae paragraffau 10 i 21 ym Memorandwm Rhif 4 yn nodi'r newidiadau a wnaed i'r Bil ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 3, a safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar y newidiadau hyn.

14. Ar 28 Mawrth 2022, cyflwynwyd gwelliant ynghylch 'twristiaeth organau' gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin.

15. Ym mharagraff 12 o Femorandwm Rhif 4 mae'r Gweinidog yn datgan:

> *"Mae'r gwelliant yn welliant gan Lywodraeth y DU i gymal newydd, cymal 181, i'r Bil. Cafodd y cymal hwn ei ychwanegu gan welliant na ddaeth gan y Llywodraeth, gwelliant yr Arglwyddi rhif 89, a gyflwynwyd yng ngham Adrodd yr Arglwyddi gan yr Arglwydd Hunt o King's Heath, ac a basiwyd gan yr Arglwyddi ar 16 Mawrth. Roedd Llywodraeth y DU o'r farn bod y cymal yn anymarferol ac y gallai arwain at ganlyniadau anfwriadol. Felly, cynigiodd Llywodraeth y DU welliant yn lle gwelliant yr Arglwydd Hunt, a fyddai'n cael yr un effaith â gwelliant yr Arglwydd Hunt o ran rhwystro pobl rhag ceisio cael organau dramor mewn modd anfoesegol, ond a fyddai'n gwella'r meysydd sy'n peri pryder i Lywodraeth y DU yn y Bil ar hyn o bryd."*

16. Ym mharagraffau 14 i 16 o Femorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn nodi manylion gwelliant Llywodraeth y DU a gyflwynwyd yn lle gwelliant yr Arglwydd Hunt. Mae'r Gweinidog yn datgan bod y gwelliant newydd yn mewnosod adran 32A newydd yn *Neddf Meinweoedd Dynol 2004 (Deddf 2004)* ac adran 20A newydd yn *Neddf Meinweoedd Dynol (Yr Alban) 2006*. Mae'r gwelliant yn ymestyn yr hyn sydd eisoes yn drosedd yn y DU i dalu, cynnig talu neu wneud trefniadau i dalu am organau, i weithredoedd fel hyn a wneir y tu allan i'r DU.

---

[11] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) y Bil Iechyd a Gofal, Ebrill 2022

[12] Y Bil Iechyd a Gofal, fel y'i diwygiwyd ar Adroddiad (Bil 132 Tŷ'r Arglwyddi)

17. Ym mharagraff 17 o Femorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn datgan:

> *"Roedd gwelliant yr Arglwydd Hunt yn ceisio ei gwneud yn drosedd i ddinasyddion y DU drefnu trawsblaniadau dramor heb gydsyniad. Fodd bynnag, byddai hynny llawer yn fwy cymhleth i'w gyflawni gan bod troseddau presennol mewn perthynas â chydsyniad yn gymwys i'r rheini sy'n cynnal y trawsblaniad, ac nid y rheini sy'n eu trefnu neu'n eu derbyn. Ychydig iawn o sefyllfaoedd, os o gwbl, fydd yn bodoli lle na fydd unrhyw un yn elwa'n ariannol, ac felly mae gwelliant Llywodraeth y DU yn cael yr un effaith ag yr oedd yr Arglwydd Hunt yn dymuno ei chael drwy ei welliant ef, h.y. rhwystro pobl rhag teithio dramor i dalu am drawsblannu organ, ond heb y cymhlethdodau o orfod profi cydsyniad. Mae hefyd yn sicrhau bod rhai agweddau beichus ar welliant yr Arglwydd Hunt sy'n effeithio ar weithwyr iechyd proffesiynol, gweinyddwyr a'r rheini sy'n derbyn organ dramor yn gyfreithlon, yn cael eu dileu."*

18. Ym mharagraff 18 o Femorandwm Rhif 4, mae'r Gweinidog yn datgan:

> *"Rydym yn cefnogi bod y ddarpariaeth hon yn ymestyn i Gymru ac yn gymwys yng Nghymru. Er bod nifer yr achosion o bobl yn ceisio talu am organ dramor yn isel, mae'r gwelliant hwn yn anfon neges bwysig bod hyn yn annerbyniol. Byddai peidio â chefnogi ymestyn y gwelliant i Gymru yn golygu na fyddai'r mesur hwn yn gymwys i drigolion Cymru sy'n ceisio talu am organau i'w trawsblannu dramor, ac yn ein gadael mewn sefyllfa lle y byddai angen chwilio am gyfle deddfwriaethol arall er mwyn cyflawni'r un mesur. Felly, ar yr achlysur hwn, rwy'n credu ei bod yn iawn i gytuno bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ran Cymru."*

19. Daw'r Gweinidog i'r casgliad:

> *"Rwy'n croesawu'r gwelliant y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud i'r Bil mewn perthynas â 'thwristiaeth' organau ac ymestyn y ddarpariaeth i Gymru.*
>
> *Gallaf felly argymell cydsyniad i'r cymal hwn."*[13]

[13] Memorandwm Rhif 4, paragraffau 23 a 24 Gweler hefyd baragraffau 20 a 21.

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

20. Trafodwyd Memorandwm Rhif 4 yn ein cyfarfod ar 25 Ebrill 2022. Cytunwyd hefyd ar ein hadroddiad ar 25 Ebrill.[14]

21. Dylid darllen yr adroddiad hwn ochr yn ochr â'n hadroddiad cyntaf a'n hail adroddiad.

Ein barn ni

Sylwadau cyffredinol

22. Yn ein hadroddiad cyntaf, tynnwyd sylw at bryderon ynghylch amserlen gosod memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru gerbron y Senedd a sut mae oedi wrth osod memoranda o'r fath yn rhoi pwyllgorau'r Senedd o dan anfantais wrth iddynt geisio craffu ar yr hyn sydd, yn gynyddol, yn faterion sy'n fwyfwy cymhleth.

Casgliad 1. Mae camau'r Gweinidog i osod Memorandwm Rhif 4 gerbron y Senedd o fewn 10 diwrnod i gyflwyno gwelliannau perthnasol yn Nhŷ'r Cyffredin i'w croesawu.

23. Nodwn safbwynt y Gweinidog fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 4 mewn perthynas â gwelliannau a wnaed i'r Bil sy'n berthnasol i ddiben datganoledig.

Casgliad 2. Rydym yn cytuno ag asesiad y Gweinidog a bod y cymal newydd sy'n ymwneud â thrafodion masnachol mewn organau i'w trawsblannu y manylir arnynt ym Memorandwm Rhif 4 yn ymwneud â diben datganoledig.

24. Rydym yn nodi safbwynt y Gweinidog fel y'i nodir ym Memorandwm Rhif 4 o ran ei rhesymau dros wneud darpariaeth bellach i Gymru yn y Bil.

[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 25 Ebrill 2022